**DEDDF HARBYRAU 1964 (FEL Y'I DIWYGIWYD)**

**Y GORCHYMYN ADOLYGU HARBWR ABERGWAUN ARFAETHEDIG 2018**

**HYSBYSIAD O GAIS AM ORCHYMYN ADOLYGU HARBWR**

1. HYSBYSIR DRWY HYN bod Cwmni Rheilffyrdd a Harbyrau Abergwaun a Rosslare ("y Cwmni") wedi gwneud cais i'r Sefydliad Rheoli Morol ("MMO") ar gyfer Gorchymyn Adolygu Harbwr o dan adran 14 o Ddeddf Harbwr 1964 ("Deddf 1964").
2. Byddai'r Gorchymyn arfaethedig yn awdurdodi'r Cwmni i adeiladu a chynnal gwaith yn Harbwr Abergwaun yn Sir Benfro. Mae'r gwaith yn cynnwys adennill tir ac adeiladu pont godi a fydd yn disodli'r cyfleusterau presennol ar gyfer fferïau yn yr harbwr. Hefyd byddai'r Gorchymyn yn awdurdodi adeiladu is-weithfeydd ac yn rhoi pwerau i garthu at ddibenion adeiladu a chynnal y gwaith.
3. Mae'r MMO wedi penderfynu, yn unol â pharagraff 4 o Atodlen 3 i Ddeddf 1964, bod y cais yn ymwneud â phrosiect sy'n dod o fewn Atodiad II i Gyfarwyddeb y Cyngor 2011/92/EU (fel y'i diwygiwyd) ar asesu effeithiau prosiectau cyhoeddus a phreifat penodol ar yr amgylchedd ("y Gyfarwyddeb") gan ei fod yn golygu adeiladu gosodiad porthladd. Mae'r MMO wedi dod i'r casgliad ei fod yn brosiect perthnasol o ran Atodlen 3 i Ddeddf 1964 oherwydd y byddai'n debygol o gael effeithiau sylweddol ar yr amgylchedd yn rhinwedd ei lleoliad a faint. Yn unol â hynny, mae angen asesiad o'r amgylchedd ac mae'r Cwmni wedi darparu datganiad amgylcheddol i'r MMO.
4. Gellir archwilio copïau o'r Gorchymyn drafft, penderfyniad y MMO y cyfeirir ato ym mharagraff 3 uchod, y Datganiad Amgylcheddol a'r cynlluniau a'r adrannau a oedd yn gysylltiedig â'r cais yn rhad ac am ddim ar bob awr resymol yn swyddfeydd y Cwmni yn y cyfeiriad a roddir ar ddiwedd yr hysbysiad hwn tan ddiwedd y cyfnod o bedwar ddeg dau diwrnod a nodir isod. Gellir cael copïau o'r Datganiad Amgylcheddol o swyddfeydd y Cwmni yn y cyfeiriad a roddir ar ddiwedd yr hysbysiad hwn ar gost o £100 am gopi caled a £5 ar CD.
5. Gellir gweld y Gorchymyn drafft a'r wybodaeth cysylltiedig hefyd ar wefan yr MMO yn www.gov.uk/government/collections/harbour-orders-public-register.
6. Nid yw paragraff 16 o Atodlen 3 i Ddeddf Harbyrau 1964 (sy'n ymwneud â gwybodaeth am brosiect sy'n debygol o gael effeithiau sylweddol ar yr amgylchedd mewn unrhyw Aelod-wladwriaeth arall o Ardal Economaidd Ewropeaidd) yn berthnasol i'r cais.
7. Dylai unrhyw berson sy'n dymuno gwrthwynebu neu wneud sylwadau i'r MMO ynghylch y cais ysgrifennu at y Tîm Trwyddedu Morol, Y Sefydliad Rheoli Morol, Tŷ Lancaster, Hampshire Court, Newcastle Upon Tyne, NE99 4YH neu e-bostio harbourorders@marinemanagement.org.uk
8. Dylai gwrthwynebiad neu sylw:



lon_lib1\18139952\3

i. gael ei dderbyn cyn diwedd y cyfnod o 42 diwrnod gan ddechrau â'r dyddiad ar waelod yr hysbysiad hwn;
ii. gael ei wneud yn ysgrifenedig gan ddyfynnu'r cyfeirnod DC10168;
iii. datgan sail y gwrthwynebiad neu'r sylw;
iv. nodi pwy sy'n gwneud y gwrthwynebiad neu'r sylw;
v. rhoi cyfeiriad y gellir anfon gohebiaeth sy'n ymwneud â'r gwrthwynebiad neu sylw ato.

9. Bydd yr MMO yn trosglwyddo copi o unrhyw wrthwynebiad a sylwadau eraill a dderbyniwyd i'r Cwmni.
10. Os gwneir gwrthwynebiad priodol i'r cais ac os na fydd yn cael ei dynnu'n ôl gall yr MMO achosi i ymchwiliad gael ei gynnal. Bydd unrhyw wrthwynebiadau a wneir yn briodol ac na fyddant yn cael eu tynnu'n ôl ac unrhyw sylwadau a wneir yn briodol yn cael eu hystyried cyn i'r MMO benderfynu mewn cysylltiad â'r cais.

Dyddiad 25 April 2018

*Les Stracey*
*Ysgrifennydd y Cwmni*
Cwmni Rheilffyrdd a Harbyrau Abergwaun a Rosslare,
Porthladd Abergwaun
Harbwr Abergwaun,
Gwdig
Sir Benfro SA64 0BU,

*Eversheds Sutherland (International) LLP*
One Wood Street, Llundain EC2V 7WS
Cyfreithwyr ac Asiantau Seneddol